# PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Y Cynghorydd E. Goodjohn (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, P. Drake, R. Fisher, E.J. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards, J.M. Norman a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau).

294 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

295 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

296 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) BRO MORGANWG 2024-25 (PW) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad ynghyd â Chyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd yn rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr Amcanion Llesiant a'r Ffrydiau Gwaith Blaenoriaeth a nodir yn ei Gynllun Llesiant 2023-2028. Roedd y gwaith a gyflawnwyd mewn partneriaeth yn y flwyddyn ddiwethaf 2024-25 wedi'i gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol ar ffurf adroddiad ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Sway. Rhoddodd yr Adroddiad Blynyddol drosolwg o'r cynnydd a wnaed gan bartneriaid wrth weithredu'r tri Amcan Llesiant, 19 cam ac yn erbyn Ffrydiau Gwaith Blaenoriaeth y BGC.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn ategu adroddiadau cynnydd ar brosiectau'r BGC a oedd wedi cael eu hadrodd i Bwyllgorau Craffu fel rhan o'r rhaglen dreigl o ddarparu diweddariadau ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y BGC ar 9 Gorffennaf, 2025 ac roedd ar gael fel dolenni o fewn yr adroddiad (ynghyd ag adroddiad crynodeb gweithredol) ac roedd hefyd wedi'i gyhoeddi ar wefan y BGC.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y Swyddogion gyngor fel a ganlyn, mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Roedd y BGC yn cynnwys pedwar partner statudol: Y Cyngor; y Bwrdd Iechyd; Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân. Mynychodd amrywiaeth o uwch swyddogion o fewn pob sefydliad y cyfarfodydd, gydag Arweinydd y Cyngor yn Gadeirydd presennol. Roedd aelodau eraill a wahoddwyd i fynychu yn cynnwys yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC) a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru; Coleg Caerdydd a'r Fro; Gwasanaethau Gwirfoddol Morganwg (GVS) a'r Gwasanaeth Prawf. Roedd lle hefyd i gynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned. Gwahoddwyd cynrychiolwyr ychwanegol i gyfarfodydd i ychwanegu arbenigedd ar bynciau penodol.
- Gellid bwydo pryderon y Pwyllgor ynghylch adnoddau plismona o fewn cymunedau ac adborth ar gynnwys yr adroddiad yn ôl i'r BGC.
- Byddai fersiwn y flwyddyn nesaf o'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am effaith y gwahanol brosiectau a gynhaliwyd gan y BGC, ar ôl i'w gwaith gael ei wreiddio.
- Mesurwyd a oedd pwysau plentyn yn iach gan ddefnyddio ei oedran a'i BMI. Roedd canran fach iawn o blant o dan bwysau, roedd tua 20% o blant yn y categori 'gordew', a chafodd niferoedd llawer llai o blant eu categoreiddio fel rhai sy'n byw gyda 'gordewdra difrifol'.
- Cynyddodd lefelau gordewdra mewn plant mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Roedd yn bwysig iawn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o'r fath, ac roedd y BGC yn anelu at wneud hynny trwy ei Gynllun Bwyd Da a Symudiad a hefyd gyda'i waith Dyffryn Bwyd a Siarter Teithio. Roedd yn nod i wneud dewisiadau iach yn ddewisiadau hawdd i drigolion.
- Yn ystod y pandemig bu cynnydd yn lefelau gordewdra a gordewdra difrifol ymhlith plant ac oedolion, ond roedd y rhain wedi gostwng eto ers hynny.

Heb unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ar gyfer 2024-25 a'r cynnydd y mae’r partneriaid wedi ei wneud o ran gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Lles.

(2) RHANNU yr argymhellion canlynol gyda’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), trwy’r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol:

  - Bod y BGC yn ystyried sefydlu Is-Grŵp Bwyd i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â bwyd iach a chynaliadwy.
  - Bod y BGC yn ymwybodol o bryderon y Pwyllgor ynghylch yr angen am fwy o adnoddau plismona gweladwy yn ein cymunedau, i ddarparu diogelwch a sicrwydd i breswylwyr, ac i atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Bod yr adborth canlynol gan y Pwyllgor ar fformat yr adroddiad yn cael ei drosglwyddo i'r BGC:
  - Er ei bod yn amlwg o'r adroddiad bod ystod eang o waith yn cael ei wneud gan bartneriaid BGC, byddai'r Pwyllgor yn croesawu darlun cliriach o gyfeiriad cyffredinol gwaith y BGC dros y 5 mlynedd nesaf, a sut mae'r gwaith sydd ar y gweill yn cysylltu'n ôl i'r Cynllun Lles gwreiddiol ar gyfer y BGC. Er enghraifft, byddai cynnwys nodau cliriach, yn enwedig nodau ar gyfer diwedd y cyfnod o 5 mlynedd, a hefyd monitro cynnydd yn erbyn nodau'r bwrdd yn cael eu croesawu. Byddai cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thystiolaeth o ganlyniadau ac effaith y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn ddefnyddiol. Yn ogystal â hyn, byddai cynnwys manylion y gwaith a wneir gan Gynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â gwybodaeth am lefel y buddsoddiad sydd gan y BGC i gyflawni ei nodau, yn ddefnyddiol hefyd.

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau Etholedig ar e-bost, fel y gallai'r holl Aelodau ystyried a oedd unrhyw faterion yn yr adroddiad y dylid eu cynnwys yn rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu yn y dyfodol, a hefyd i aelodau'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a Chyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, er gwybodaeth.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi adborth y Pwyllgor ar yr adroddiad i'r BGC.

(3) Parhau i graffu ar waith y BGC a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau amdano, ac er gwybodaeth i'r Aelodau.

297 STRATEGAETH ARIANNOL 2026/27 I 2030/31 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 17 Gorffennaf, 2025 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifeg. Yn dilyn ei gyflwyniad, rhoddodd y Swyddog gyngor fel y nodir isod, mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Roedd rhywfaint o'r amser ychwanegol yr oedd Swyddogion wedi gobeithio ei gael ar gyfer eglurder ynghylch cyllid ar gyfer gosod cyllideb wedi'i erydu ychydig gan y gyllideb a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU.
- Roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar sut y gallent gael setliad dros dro allan i Awdurdodau Lleol yn gynharach, ac roeddent wrthi'n adolygu opsiynau. Roedd swyddogion yn gobeithio am fwy o eglurder ar hyn yn fuan.
- Roedd safbwynt cymysg ymhlith y Grŵp Gwaith Cyllideb ynghylch pa mor realistig fyddai'r Strategaethau Arbedion Tymor Canolig a amlinellir yn nhabl 6b i'w cyflawni'n llawn.

- Roedd yn anodd cyflawni arbedion ar yr un lefel â blynyddoedd blaenorol, ond uchelgais Swyddogion oedd targedu arbedion ail-lunio a drawsnewidiodd wasanaethau i wneud arbedion tra hefyd yn anelu at wella canlyniadau i Ddefnyddwyr Gwasanaeth.
- Roedd swyddogion yn cael trafodaethau ynghylch arbedion yn gynharach yn y flwyddyn i wella'r siawns o gyflawni'r targedau.
- Roedd nifer o arbedion caffael wedi'u nodi o fewn addysg yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yr adborth cychwynnol gan y Swyddog Caffael Ysgolion oedd bod y ffocws ychwanegol ar weithio clwstwr a chaffael cyson ar draws ysgolion wedi nodi rhai cyfleoedd ac arbedion posibl. Gellid darparu rhagor o fanylion gydag adroddiad monitro ariannol Chwarter 2.
- Er mwyn datrys sefyllfa gyffredinol yr ysgolion, byddai angen rhoi mesurau pellach ar waith, oherwydd maint sylweddol diffygion rhai o ysgolion, a'r ffaith bod cyfran uchel iawn o gyllidebau ysgolion yn gostau staffio.
- Roedd ansicrwydd o hyd ynghylch, er enghraifft, deddfwriaeth newydd a lefelau'r cyllid a oedd yn dod i mewn i Awdurdodau Lleol, ac er bod gwaith sylweddol wedi'i wneud i ragweld pwysau ariannol yn well, roedd gwaith i'w wneud o hyd ar hyn.
- Croesawodd swyddogion y dull yr oedd y Cyngor yn ei gymryd i geisio lleihau'r bwlch ariannol tymor canolig, fodd bynnag, roedd pwysau ariannol wedi cynyddu.
- Ers cyhoeddi'r adroddiad, roedd y grant ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) wedi'i dderbyn gan y Cyngor. Cyn cyhoeddi'r adroddiad roedd diffyg o £624k ar gyfer Yswiriant Gwladol ar draws Cronfa'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2025. Roedd pwysau cysylltiedig yn enwedig mewn perthynas â chyflenwyr staff dan gontract (adlewyrchwyd y rhain yn yr adroddiad fel 'Ffioedd Darparwyr'), a hefyd y Cyfrif Refeniw Tai.
- Roedd y dyfarniad cyflog tybiedig yn cyfrannu at rywfaint o'r diffyg presennol. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf nid oedd y Cyngor wedi ariannu'r Dyfarniad Cyflog yn llawn, fodd bynnag, gan fod gwasanaethau bellach yn cario ffactor swyddi gwag sylweddol yn erbyn eu cyllidebau, byddai'r Cyngor yn edrych i ariannu'r Dyfarniad Cyflog yn llawn ar gyfer 2026/27.
- Gellid darparu dadansoddiad i'r Pwyllgor o faint o'r dyfarniad cyflog a ariannwyd a faint a oedd wedi'i gwmpasu drwy swyddi gwag.
- Nid oedd swyddi wedi'u cadw'n wag i atal pwysau cost, ond yn hytrach roedd hyn yn ymgais i adlewyrchu'r trosiant naturiol a welid o fewn gweithlu Cyngor, a hefyd i sicrhau bod cyllidebau cyflog mor denau â phosibl a heb eu gorbwysleisio.
- Roedd gwaith yn dal i gael ei wneud ar sut olwg fyddai ar arbedion caffael. Ar hyn o bryd, y swydd Swyddog Caffael newydd ar gyfer Ysgolion oedd yr unig fuddsoddiad a neilltuwyd yn benodol i wneud arbedion caffael yng nghyllideb 2026/27, er y gallai hyn newid er mwyn ceisio cyflawni'r targedau arbedion caffael.
- Byddai'r Arolwg 'Gadewch i Ni Siarad am Fywyd yn y Fro' diweddaraf a dulliau cyfranogiad eraill yn bwydo i benderfyniadau allweddol ar osod cyllideb a llunio gwasanaethau.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r cyfeiriad gan y Cabinet a'r Strategaeth Ariannol a'r rhagdybiaethau a wnaed ar gostau a chyllid yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i adnewyddu.

(2) Y dylid gofyn i swyddogion ddarparu data i'r Pwyllgor a fyddai'n dangos dadansoddiad o'r gwahaniaeth yn y Dyfarniad Cyflog a swyddi gwag.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet, ac adroddiad y Cabinet ar y Strategaeth Ariannol, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

(2) I egluro'r maes hwn o gyllideb a chyllid y Cyngor i'r Aelodau.

298 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2025 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 4ydd Medi, 2025 gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifeg. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cynghorodd y Swyddog y canlynol, mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Byddai'r defnydd o dendrau prisiau wedi'u capio yn cael ei archwilio'n weithredol a'i gadw dan adolygiad.
- Derbyniodd swyddogion lefelau cymysg o gyfiawnhad dros ofyn i'r Cyngor am arian ychwanegol.
- Roedd llywodraethu cryf o amgylch cynyddu costau cyfalaf. Oni bai bod trefniant brys, byddai ceisiadau am arian ychwanegol yn destun cais cyfalaf newydd a byddent yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd Mewnwelediad, y Grŵp Gwaith Cyllideb a chan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi’r cyfeiriad gan y Cabinet a’r adroddiad Monitro Cyfalaf sydd wedi’i atodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet ac adroddiad y Cabinet, a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

299 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2025/26 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 4ydd Medi, 2025 gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifeg. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cynghorodd y Swyddog y canlynol:

- Bu gostyngiad yn y diffygion cyllideb ysgolion cyffredinol y llynedd;
- Fel arfer, roedd cynlluniau adfer yn ceisio adfer diffygion ysgolion o fewn 3 blynedd, er bod 5 mlynedd wedi'i ganiatáu o dan rai amgylchiadau yn flaenorol;
- Roedd ysgolion yn cael eu hannog i gyflwyno cynllun adfer erbyn hanner tymor mis Hydref nesaf;
- Roedd anghysondeb sylweddol rhwng ysgolion a oedd wedi gallu ac ysgolion nad oeddent wedi gallu gosod cyllideb gytbwys;
- Roedd ysgolion â lefel uwch o ddiffyg na ellir ei adfer yn cael blaenoriaeth ar gyfer cefnogaeth Swyddogion;
- Roedd problem genedlaethol gyda diffygion ysgolion. Roedd y Cyngor yn eistedd ar wahanol grwpiau addysg cenedlaethol ac yn bwydo data diffyg ysgolion Bro Morganwg i'w gwaith;
- Ymddangosai i ddechrau bod problem diffygion ysgolion ychydig yn fwy difrifol ym Mro Morganwg nag Awdurdodau Lleol eraill, ond roedd angen gwneud gwaith meincnodi pellach;
- Roedd cyfleoedd ar gyfer arbedion maint mewn caffael a rhannu arbenigedd rhwng ysgolion yn syniadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Cynigiwyd adolygiad gan gymheiriaid rhwng ysgolion lle bo'n briodol;
- Roedd diffyg cyffredinol yr ysgolion yn cael ei osod yn erbyn cronfeydd wrth gefn y Cyngor ar hyn o bryd, a oedd yn risg sylweddol i'r Cyngor, yn enwedig pe bai'r diffyg yn cael ei wireddu'n llawn.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r cyfeiriad gan y Cabinet a'r adroddiad Monitro Refeniw sydd wedi'i atodi.

(2) Y dylid darparu adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar y cynllun a'r mesurau a gymerwyd i adfer cyllidebau ysgolion.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet a'r adroddiad Monitro Refeniw, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am hyn, fel maes pwysig o bryder o fewn cyllid y Cyngor.